SEMESTER DAU 2021- 2022
PRIFYSGOL ABERYSTWYTH
ADRAN GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL

PAPUR ARHOLIAD
IP2/39620: Women and Global Development

Amser: **24 AWR.**
Rhaid i chi gyflwyno'ch ateb mewn un ddogfen i'r man cyflwyno yn TurnItIn cyn 12 P.M. (BST) ar y diwrnod ar ôl i'r papur arholiad gael ei ryddhau. Ni fydd gwaith a gyflwynir yn hwyr yn cael ei dderbyn.

Atebwch **UN** cwestiwn os gwelwch yn dda.

Rhaid i bob ateb gynnwys 1,500 o eiriau (+/- 10%). Peidiwch â dyblygu deunydd rydych wedi'i gyflwyno o'r blaen.

MAE MYFYRWYR YN CAEL CYFLWYNO ATEBION I'R PAPUR HWN NAILL AI YN Y GYMRAEG NEU'R SAESNEG

Rydym yn atgoffa myfyrwyr **na ddylent ddyblygu gwaith** yn yr arholiad sydd eisoes wedi'i gyflwyno yn y traethawd a asesir.

1. Pwy sy'n siarad ar ran menywod yn y Byd sy'n Datblygu a pham mae hwn yn fater pwysig?

2. A yw hyrwyddo hawliau atgenhedlu o fudd i fenywod yn y Byd sy'n Datblygu?

3. Beth yw manteision – ond cyfyngiadau hefyd – mentrau creu heddwch gan fenywod ar lawr gwlad?

4. A all arddangos benyweidd-dra yn eu hymddygiad fod o fudd ar unrhyw adeg i fenywod sy'n wleidyddol uchelgeisiol?

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

5. Pwy sy'n ennill pan fydd menywod yn mynd allan i weithio?

6. Pam mae'r hijab wedi'i wahardd yn Ffrainc – a oes rhaid i fenywod Mwslimaidd ildio i hyn, neu a allant ddefnyddio ei bŵer symbolaidd i wrthsefyll?

7. Pam mae angen edrych ar y newid yn yr hinsawdd trwy lens rhywedd? Yn eich ateb trafodwch effaith y newid yn yr hinsawdd a'r gwrthsafiad gwleidyddol iddo.

8. 'Prif gyfyngiad astudiaethau rhywedd yw eu pwyslais parhaus ar fenywod. Pŵer dynion yw’r broblem allweddol, felly dylem ganolbwyntio ar wrywdod.’ Ydych chi’n cytuno â’r datganiad hwn? Archwiliwch y ddadl, gydag enghreifftiau.